Sector Lletygarwch, Hamdden, Teithio a Thwristiaeth yng Nghymru

Proffil daearyddol

Awst 2008

Crynodeb Gweithredol

Maint a chwmpas y sector yng Nghymru

Sefydliadau

- Mae oddeutu 9,900 o sefydliadau lletygarwch, hamdden, teithio a thwristiaeth yng Nghymru.
- 'Tafarnau, bariau a chlybiau nos' neu 'fwytai' yw 70 y cant o'r sefydliadau hyn.
- Gan Gaerdydd mae'r nifer fwyaf o sefydliadau lletygarwch, hamdden, teithio a thwristiaeth yng Nghymru.
- Mae 80 y cant o sefydliadau lletygarwch, hamdden, teithio a thwristiaeth yn cyflogi rhwng 1 a 10 o bobl.

Cyflogaeth

- Mae oddeutu 102,700 o gyflogeion lletygarwch, hamdden, teithio a thwristiaeth yng Nghymru.
- Mae dros chwarter yr holl bobl sy'n gweithio yn sector People1st yn gweithio mewn 'bwytai'.
- Menywod yw tua dau draean o'r gweithlu lletygarwch, hamdden, teithio a thwristiaeth.
- Mae'r gweithwyr wedi'u rhannu'n weddol gyfartal rhwng rhai sy'n gweithio amser llawn a rhai sy'n gweithio rhan-amser.
- Mae 18 y cant o weithlu'r sector yng Nghymru rhwng 16 ac 19 oed ac mae 15 y cant arall rhwng 20 a 24 oed.

Galwedigaethau

- Mae bron hanner y gweithlu yng Nghymru'n gweithio mewn galwedigaethau megis cynorthwywyr cegin, staff gweini a staff bar (a elwir weithiau 'galwedigaethau elfennol').
- Mae oddeutu 93,000 o bobl yn gweithio mewn galwedigaethau craidd ym maes lletygarwch, hamdden, teithio a thwristiaeth.

Anghenion a heriau o ran sgiliau

Proffil cymwysterau

- Mae rhyw 30 y cant o weithlu'r sector â chymwysterau Lefel 2 ac 18 y cant â chymwysterau Lefel 3.
- Mae 19 y cant o'r gweithlu lletygarwch, hamdden, teithio a thwristiaeth yng Nghymru â chymwysterau Lefel 1, ac mae pumed heb unrhyw gymwysterau

Swyddi gwag wedi'u hysbysu

- Roedd 1,183 o swyddi gwag mewn galwedigaethau craidd ym maes lletygarwch, hamdden, teithio a thwristiaeth wedi'u hysbysebu mewn Canolfannau Gwaith yng Nghymru ym mis Gorffennaf 2008.
- Roedd y nifer fwyaf o swyddi gwag i 'gynorthwywyr cegin ac arlwyo', 'staff bar', 'cogyddion', a 'gweinyddion'.

Swyddi gwag anodd eu llenwi

- Roedd 17 y cant o gyflogwyr yn dweud bod ganddynt swyddi gwag anodd eu llenwi.

Prinder sgiliau

- Roedd 4 y cant o gyflogwyr yn dweud bod ganddynt swyddi gwag oherwydd prinder sgiliau.

Bylchau sgiliau

- Mae bron pumed o'r sefydliadau yng Nghymru'n dweud bod bylchau sgiliau

Cynnwys

Crynodeb gweithredol 2

Cyflwyniad 5

Adran un: ciplun o Gymru 6

Adran dau: maint a chwmpas y sector yng Nghymru 8

Sefydliadau 8

Cyflogaeth 10

Galwedigaethau 12

Adran tri: Anghenion a heriau o ran sgiliau 13

Proffil cymwysterau 13

Swyddi gwag wedi'u hysbysu 14

Swyddi gwag anodd eu llenwi 14

Prinder sgiliau 14

Bylchau sgiliau 15

Tueddiadau yn y sector 16

Atodiad A : Trosolwg technegol 18

Cyflwyniad

Mae'r sector lletygarwch, hamdden, teithio a thwristiaeth yn cyflogi bron 2 filiwn o bobl ac yn cyfrannu rhyw 4 y cant o CMC. Felly mae'n creu cryn dipyn o gyfoeth a swyddi ledled y Deyrnas Unedig.

Gwelir ei bwysigrwydd hefyd yn rhanbarthau Lloegr ac ar draws y gwledydd datganoledig, gan ei fod yn cynnal sectorau eraill megis amaethyddiaeth, trafnidiaeth a manwerthu.

Mae People1st wedi cynhyrchu'r **Adroddiadau Rhanbarthol** i roi dadansoddiad o'r sector fesul rhanbarth, gan ddangos ei nodweddion o ran cyflogaeth a'r prif ofynion a heriau o ran sgiliau.

Hefyd cynhyrchwyd **Proffiliau Rhanbarthol** byrrach sy'n rhoi ciplun rhanbarthol hygyrch o'r sector.

I gael mwy o wybodaeth am yr adroddiadau hyn neu unrhyw ran o'n hymchwil cysylltwch â thîm ymchwil People1st ar 0870 060 2558.

Adran un: Ciplun o Gymru

Mae Cymru'n cynnwys Canolbarth Cymru, Gogledd Cymru, De Ddwyrain Cymru a De Orllewin Cymru.

Mae gan Gymru boblogaeth o 2 ¾ miliwn.
Mae'r rhan fwyaf o'i thrigolion yn byw ar wastatiroedd arfordirol y de a'r gogledd a'u cyffiniau.

Yn ôl Bwrdd Croeso Cymru, cafwyd10.9 miliwn o deithiau twristiaeth i Gymru, gan ddod â 2.5 biliwn i'r economi, yn 2001. Ymwelwyr o'r DU sy'n gyfrifol am 93 y cant o'r teithiau twristiaeth i Gymru, gydag ymwelwyr o dramor yn gyfrifol am 7 y cant yn unig.

Mae gan Gymru nifer o atyniadau twristaidd o bwys gan gynnwys:

- Amgueddfa Werin Cymru, Caerdydd
- Oakwood, Arberth
- Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol Caerdydd, Caerdydd
- Portmeirion, Penrhyndeudraeth
- Canolfan Ymwelwyr Bae Caerdydd, Caerdydd

Yn ôl amcangyfrifon gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, cyfrannodd gwestai a bwytai 3.7% o gyfanswm y Gwerth Ychwanegol Crynswth yng Nghymru yn 2001, ychydig yn uwch na chyfartaledd y DU, sef 3.4%.

Persbectifau eraill o'r sector yng Nghymru

Lansiwyd y strategaeth twristiaeth genedlaethol i Gymru ym mis Ebrill 2000. Paratowyd 'Cyflawni Ein Potensial' gan Fwrdd Croeso Cymru gan ymgynghori â'r diwydiant. Mae'r strategaeth wedi'i seilio ar bedair thema allweddol – cynaliadwyedd, ansawdd, cystadleurwydd a phartneriaeth.

Canfu ymchwil a wnaethpwyd yn 2004: Adroddiad Ymchwil i'r Farchnad Lafur y canfyddiadau allweddol canlynol gan gynnwys:

- Yr angen i ddatblygu methodoleg i gadw data ar y farchnad lafur ac anghenion sgiliau fel offeryn rheoli i lywio ymyriadau'r sector cyhoeddus a pharhau i wella ansawdd cynnyrch twristiaeth Cymru.
- Cyfran fawr microfusnesau, y mae llawer ohonynt heb y sgiliau ymarferol o ran cynllunio busnes a marchnata i gystadlu'n llwyddiannus, ac y mae arnynt angen cymorth i ddatblygu busnesau proffidiol a phwysleisio rôl annatod staff hyfforddedig. Mae'n bwysig eu hannog i weld y darlun mwy - bod ar y diwydiant yng Nghymru angen staff o ansawdd da er mwyn ennill enw da a darparu cynnyrch o ansawdd da, ond bod angen buddsoddi er mwyn sicrhau ansawdd.
- Diffyg cydweddu rhwng darparwyr dysgu a gofynion cyflogwyr.
- Delwedd negyddol y diwydiant, sy'n effeithio ar recriwtio i'r diwydiant.
- Swyddi gwag anodd eu llenwi ymysg cogyddion a staff glanhau a gweini, sy'n cyfateb i nifer y swyddi gwag wedi'u hysbysu'n swyddogol. Mae swyddi gwag sy'n barhaol anodd eu llenwi'n effeithio ar berfformiad busnesau, ansawdd y gwasanaeth ac, yn y pen draw, ar brofiad yr ymwelwyr.

- Bylchau sgiliau ymysg y cyflogeion presennol mewn perthynas â: sgiliau gwasanaeth cwsmeriaid: gan gynnwys cyfathrebu; sgiliau a phriodoleddau cyffredinol: gan gynnwys menter a gweddusrwydd personol; a sgiliau penodol i'r alwedigaeth e.e. sgiliau coginio a gwasanaeth arian.
- Consensws ar yr angen i wella sgiliau; gwella proffesiynoldeb ymysg cyflogwyr a chyflogeion a meithrin diwylliant hyfforddi fel rhan annatod o berfformiad cyffredinol busnesau.

Adran dau: Maint a chwmpas y sector yng Nghymru

Mae'r sector lletygarwch, hamdden, teithio a thwristiaeth yn cynnwys 14 diwydiant:

- Gwestai
- Bwytai
- Tafarnau a chlybiau nos
- Darpariaeth gwasanaethau bwyd dan gontract
- Gwasanaethau lletygarwch
- Clybiau aelodaeth
- Gwasanaethau teithio
- Gwasanaethau gwybodaeth i dwristiaid
- Digwyddiadau
- Hapchwarae
- Atyniadau i ymwelwyr
- Hosteli ieuenctid
- Parciau gwyliau
- Llety hunanddarpar

I'r graddau y bo modd mae'r diwydiannau hyn wedi cael eu rhannu yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, mewn rhai achosion naill ai nid yw'r ffigurau ar gael neu maent wedi cael eu cyfuno. I gael trosolwg technegol llawn gweler Atodiad A.

Sefydliadau

Yn ôl yr Ymchwiliad Busnes Blynyddol (2006) mae oddeutu 9,900 o sefydliadau lletygarwch, hamdden, teithio a thwristiaeth yng Nghymru (gweler tabl 1).

'Tafarnau, bariau a chlybiau nos' neu 'fwytai' yw 70 y cant o'r sefydliadau hyn.

Tabl 1: Nifer y sefydliadau yn sector People 1st, yn ôl diwydiannau

	Cymru		Lloegr	
	Nifer	%	Nifer	%
Atyniadau i ymwelwyr	100	1%	400	0%
Bwytai	3,200	32%	60,300	38%
Darparwyr gwasanaethau bwyd dan gontract	600	6%	17,100	11%
Gwasanaethau teithio a thwristiaeth (wedi'u cyfuno)	500	5%	10,600	7%
Gwestai	800	8%	9,100	6%
Hapchwarae	600	6%	9,300	6%
Hosteli ieuenctid	-----	0%	300	0%
Parciau gwyliau a llety hunanddarpar (wedi'u cyfuno)	400	4%	2,800	2%
Tafarnau, bariau a chlybiau nos	3,800	38%	50,400	31%
Cyfanswm	**9,900**	**100%**	**160,300**	**100%**

Ffynhonnell: Ymchwiliad Busnes Blynyddol, 2006
Nodyn 1. Efallai na fydd y ffigurau'n adio'n gyfansymiau oherwydd talgrynnu (talgrynnwyd y ffigurau i'r 100 agosaf)
Nodyn 2. Mae '-----' yn dynodi data cyfrinachol

Gellir rhannu nifer y sefydliadau ymhellach yn ôl awdurdod unedol (gweler tabl 2). Gan Gaerdydd mae'r nifer fwyaf o sefydliadau lletygarwch, hamdden, teithio a thwristiaeth yng Nghymru, sef 10% o holl sefydliadau'r sector hwn yng Nghymru. O edrych ar yr holl sefydliadau ym mhob ardal gwelir mai Sir Benfro sydd â'r ganran uchaf o'r holl sefydliadau (14 y cant) o'i chymharu â chyfartaledd o 10 y cant yng Nghymru.

Tabl 2: Nifer y sefydliadau lletygarwch, hamdden, teithio a thwristiaeth yn ôl Awdurdodau Unedol

Awdurdod Unedol Sirol	Sefydliadau lletygarwch, hamdden, teithio a thwristiaeth	Canran o'r holl sefydliadau	Yr holl sefydliadau
Abertawe	800	11%	7,300
Blaenau Gwent	200	11%	1,500
Bro Morgannwg	300	8%	4,000
Caerdydd	1,000	8%	12,100
Caerffili	400	10%	4,100
Casnewydd	400	9%	4,600
Castell-nedd Port Talbot	300	10%	3,600
Ceredigion	300	11%	3,100
Conwy	600	13%	4,200
Gwynedd	600	13%	5,000
Merthyr Tudful	200	12%	1,400
Pen-y-bont ar Ogwr	400	10%	4,200
Powys	600	10%	6,300
Rhondda Cynon Taf	600	11%	6,100
Sir Benfro	700	14%	4,900
Sir Ddinbych	400	11%	3,500
Sir Fynwy	300	8%	3,900
Sir Gaerfyrddin	600	9%	6,600
Sir y Fflint	400	9%	5,100
Torfaen	200	9%	2,400
Wrecsam	300	8%	4,100
Ynys Môn	200	11%	2,200
Cyfanswm	**9,900**	**10%**	**100,100**

Ffynhonnell: Ymchwiliad Busnes Blynyddol, 2006
Nodyn 1. Efallai na fydd y ffigurau'n adio'n gyfansymiau oherwydd talgrynnu (talgrynnwyd y ffigurau i'r 100 agosaf)

Mae 80 y cant o'r sefydliadau lletygarwch, hamdden, teithio a thwristiaeth yng Nghymru'n cyflogi rhwng 1 a 10 o bobl, ac mae 18 y cant arall yn cyflogi rhwng 11 a 49 o bobl.

Cyflogaeth

Mae dros chwarter yr holl bobl sy'n gweithio yn sector People1st yng Nghymru'n gweithio mewn 'bwytai' (gweler tabl 3). Mae 21 y cant arall yn gweithio mewn 'gwasanaethau lletygarwch' ac mae 16 y cant yn gweithio mewn 'tafarnau, bariau a chlybiau nos'.

Tabl 3: Yr holl gyflogaeth yn y diwydiant lletygarwch, hamdden, teithio a thwristiaeth yng Nghymru

Diwydiant	Cyflogaeth	
	Nifer	%
Atyniadau i ymwelwyr	300	0%
Bwytai	28,500	28%
Darparwyr gwasanaethau bwyd dan gontract	6,800	7%
Gwasanaethau lletygarwch	21,900	21%
Gwasanaethau teithio a thwristiaeth	2,800	3%
Gwestai	16,100	16%
Hapchwarae	3,900	4%
Hosteli ieuenctid	-----	0%
Hunanddarpar a chanolfannau gwyliau	5,600	5%
Tafarnau, bariau a chlybiau nos	16,700	16%
Cyfanswm y gweithlu	**102,700**	**100%**

Ffynhonnell: Arolwg o'r Llafurlu, 2006/07
Nodyn 1. Efallai na fydd y ffigurau'n adio'n gyfansymiau oherwydd talgrynnu (talgrynnwyd y ffigurau i'r 100 agosaf)
Nodyn 2. Mae '-----' yn dynodi data cyfrinachol / ni ddangoswyd y ffigurau gan nad ydynt yn ddibynadwy'n ystadegol

Siart 1: Cyflogaeth yn ôl rhywedd



Siart 2: Cyflogaeth amser llawn a rhan-amser



Ffynhonnell: Arolwg o'r Llafurlu, 2006/07

Menywod yw mwyafrif y gweithlu lletygarwch, hamdden, teithio a thwristiaeth yn y Gogledd Ddwyrain (64 y cant) (gweler siart 1).

Mae siart 2 yn dangos bod rhaniad gweddol gyfartal rhwng y bobl sy'n gweithio amser llawn yn y diwydiant a'r rhai sy'n gweithio rhan-amser.

Mae 18 y cant o'r gweithlu lletygarwch, hamdden, teithio a thwristiaeth yng Nghymru rhwng 16 a 19 oed ac mae 15 y cant arall rhwng 20 a 24 oed. Mae bron chwarter y gweithlu'n 50 oed neu'n hŷn (gweler siart 3).

Siart 3: Proffil oed gweithlu lletygarwch, hamdden, teithio a thwristiaeth Cymru



Ffynhonnell: Arolwg o'r Llafurlu, 2006/07

Galwedigaethau

Mae bron hanner y gweithlu (44 y cant) yn gweithio yn yr hyn a elwir 'galwedigaethau elfennol', megis cynorthwywyr cegin, staff gweini a staff bar (siart 4). Rheolwyr yw 24 y cant ac mae 10 y cant yn gweithio mewn galwedigaethau crefftau medrus.

Siart 4: Proffil galwedigaethol y sector lletygarwch, hamdden, teithio a thwristiaeth yng Nghymru



Ffynhonnell: Arolwg o'r Llafurlu, 2006/07

Galwedigaethau **craidd** yw'r rhai a geir yn bennaf yn y sector, megis trefnwyr teithiau, cogyddion a staff bar. Mae oddeutu 93,000 o bobl yng Nghymru'n gweithio mewn galwedigaethau craidd ym maes lletygarwch, hamdden, teithio a thwristiaeth.

Mae'r rhain yn cynnwys:

Cynorthwywyr cegin ac arlwyo (23,400)
Cogyddion (13,300)
Rheolwyr bwytai ac arlwyo (8,400)
Staff gweini (12,700)
Staff bar (13,200)

Mewn cyferbyniad, mae galwedigaethau **ychwanegol** yr un mor hanfodol i'r sector, ond gellir eu cael mewn amrywiaeth fawr o sectorau. Mae'r galwedigaethau hyn yn cynnwys gweithwyr proffesiynol ym meysydd cyllid, adnoddau dynol a marchnata, garddwyr a glanhawyr ac ati.

Adran tri: Anghenion a heriau o ran sgiliau

Ledled y Deyrnas Unedig, mae'r sector yn dioddef o gyfran o swyddi gwag ychydig yn uwch na'r cyfartaledd (mae 20 y cant o gyflogwyr yn dweud bod ganddynt swyddi gwag yn y sector lletygarwch, hamdden, teithio a thwristiaeth o'u cymharu â 18 y cant ar draws diwydiannau eraill). Dywedir bod rhyw draean o'r swyddi gwag yn rhai 'anodd eu llenwi' gyda mwy na thri phumed o'r rhain yn anodd eu llenwi oherwydd diffyg pobl â sgiliau priodol.

Proffil cymwysterau

Mae gan ryw 30 y cant o weithlu'r sector gymwysterau Lefel 2 ac mae gan 18 y cant gymwysterau Lefel 3. Mae gan bumed gymwysterau Lefel 3 (siart 5). Er bod 19 y cant o'r gweithlu lletygarwch, hamdden, teithio a thwristiaeth yng Nghymru â chymwysterau Lefel 1, nid oes gan bumed ohonynt unrhyw gymwysterau. Mae cyfran gymharol fach o'r bobl sy'n gweithio yn y sector (14 y cant) â chymwysterau Lefel 4 neu uwch.

Siart 5: Proffil cymwysterau'r gweithlu lletygarwch, hamdden, teithio a thwristiaeth yng Nghymru



Ffynhonnell: Arolwg o'r Llafurlu, 2006/07

Beth mae'r lefelau'n ei olygu'n ymarferol:

Lefel mynediad *– yn cynnwys cymwysterau llythrennedd a rhifedd sylfaenol*
Lefel 1 *– yn cynnwys TGAU graddau D – G, NVQ lefel 1, Tystysgrif lefel 1 neu gyfwerth*
Lefel 2 *– yn cynnwys 5 TGAU graddau A*-C, NVQ lefel 2, GNVQ Canolradd neu gyfwerth*
Lefel 3 *– yn cynnwys 2 lefel A TAG (neu gyfwerth AS), NVQ lefel 3, GNVQ uwch neu gyfwerth*
Lefel 4 *– yn cynnwys unrhyw radd, gradd uwch, NVQ lefel 4 neu gyfwerth*
Lefel 5 *– yn cynnwys tystysgrifau a diplomâu ôl-raddedig, graddau meistr a doethuriaethau.*

Swyddi gwag

Roedd 1,183[1] o swyddi gwag mewn galwedigaethau craidd ym maes lletygarwch, hamdden, teithio a thwristiaeth wedi'u hysbysebu mewn Canolfannau Gwaith yng Nghymru ym mis Gorffennaf 2008. Roedd nifer fwyaf y swyddi gwag ar gyfer:

- Cynorthwywyr cegin ac arlwyo (314)
- Staff bar (202)
- Cogyddion (334)
- Gweinyddion (132)

Yn ôl Sgiliau Dyfodol Cymru (2005), roedd bron traean (31 y cant) o gyflogwyr yn y sector lletygarwch, hamdden, teithio a thwristiaeth yn dweud bod ganddynt swyddi gwag, o'i gymharu â 21 y cant o gyflogwyr ar draws pob sector.

Swyddi gwag anodd eu llenwi a phrinder sgiliau

Ar draws pob sector, roedd 10 y cant o gyflogwyr yn dweud bod ganddynt swyddi gwag anodd eu llenwi. Yn y sefydliadau lletygarwch, hamdden, teithio a thwristiaeth, fodd bynnag, mae hyn yn codi i 17 y cant. Yr is-sector sy'n dweud bod ganddo'r gyfran uchaf o swyddi gwag anodd eu llenwi yw Gwestai (36 y cant), yna Bwytai (18 y cant), wedyn Tafarnau, bariau a chlybiau nos (15 y cant) [Sgiliau Dyfodol Cymru (2005)].

Mae Tabl 4 drosodd yn nodi bod 4 y cant o'r sefydliadau yn sector People 1st wedi dweud bod ganddynt swyddi gwag oherwydd prinder sgiliau, yn unol â'r holl sefydliadau ledled Cymru.

[1] Y 'galwedigaethau craidd' yn y ffigur hwn yw Cogyddion, Howsgipars a galwedigaethau cysylltiedig, Porthorion gwestai, Cynorthwywyr cegin ac arlwyo, Gweinyddion, Staff bar, Rheolwyr gwestai a llety, Rheolwyr cynadleddau ac arddangosfeydd, Rheolwyr bwytai ac arlwyo, Tafarnwyr a rheolwyr safleoedd trwyddedig

Tabl 4: Ystadegau ar gyfer y swyddi gwag, swyddi gwag anodd eu llenwi a swyddi gwag oherwydd prinder sgiliau

	Sector LI, H, T a Th	Cymru gyfan
% o'r holl sefydliadau sy'n dweud bod ganddynt swyddi gwag	31%	21%
% o'r sefydliadau â swyddi gwag anodd eu llenwi	17%	10%
% o'r sefydliadau â swyddi gwag oherwydd prinder sgiliau	4%	4%
Nifer y swyddi gwag	6,300	37,900
Nifer y swyddi gwag anodd eu llenwi	2,800	13,200
Nifer y swyddi gwag oherwydd prinder sgiliau	600	5,400
Swyddi gwag fel canran o gyflogaeth	8.3%	3.5%
Swyddi gwag anodd eu llenwi fel canran o gyflogaeth	3.8%	1.2%
Swyddi gwag oherwydd prinder sgiliau fel canran o gyflogaeth	0.8%	0.5%

Ffynhonnell: Sgiliau Dyfodol Cymru (2005)

Bylchau sgiliau

Sonnir am fylchau sgiliau pan fo cyflogwr yn barnu nad yw'r sgiliau angenrheidiol gan ei weithlu presennol i gyflawni amcanion y busnes. Yng Nghymru dywedodd bron pumed o'r sefydliadau yn y sector bod bylchau sgiliau ymysg eu gweithlu presennol, o'i gymharu â'r ffigur i Gymru gyfan. Fodd bynnag, roedd 1 o bob 10 aelod o'r staff heb y sgiliau i gyflawni amcanion y busnes, sef dwywaith y gyfran i Gymru gyfan.

Dywedodd traean o'r sefydliadau â bylchau sgiliau mai *sgiliau cyfathrebu* oedd yn ddiffygiol. Wedyn daeth *sgiliau TG,* a enwyd gan 20 y cant o'r sefydliadau â bylchau sgiliau, a soniwyd hefyd yn aml am *ddangos menter* (15 y cant) a *gallu i ddysgu* (14 y cant) [Sgiliau Dyfodol Cymru (2005)].

Tueddiadau yn y sector

Mae Tabl 5 yn dangos lefelau amrywiol y cyflogeion sy'n gweithio yn y sector yn y cyfnod 2000-2005. Yn gyffredinol bu cynnydd o 20 y cant yn nifer y bobl sy'n gweithio yn y sector.

Tabl 5: Cyflogeion yn y sector 2000-2006

	2000	2001	2002	2003	2004	2005	2006
Atyniadau i ymwelwyr	400	400	400	300	400	400	600
Bwytai	17,800	20,800	21,100	20,000	24,300	24,600	25,200
Darparwyr gwasanaethau bwyd dan gontract	8,500	8,800	9,100	8,300	8,400	8,000	6,500
Gwasanaethau teithio a thwristiaeth (wedi'u cyfuno)	3,800	3,100	3,700	4,000	3,500	3,400	3,200
Gwestai	13,700	14,400	13,500	16,100	16,000	16,400	17,100
Hapchwarae	3,300	3,400	3,600	3,700	4,000	3,900	4,600
Hosteli ieuenctid	100	100	200	100	100	200	200
Parciau gwyliau a llety hunanddarpar (wedi'u cyfuno)	1,500	1,700	1,600	2,100	1,700	2,000	2,500
Tafarnau, bariau a chlybiau nos	24,400	27,200	22,700	23,900	28,400	27,800	28,000
Cyfanswm	**73,400**	**79,900**	**75,800**	**78,600**	**86,800**	**86,700**	**88,000**

Ffynhonnell: Ymchwiliad Busnes Blynyddol (2006)
Nodyn 1. Efallai na fydd y ffigurau'n adio'n gyfansymiau oherwydd talgrynnu (talgrynnwyd y ffigurau i'r 100 agosaf)

Mae Tabl 6 yn dangos data tebyg wedi'i seilio ar nifer y sefydliadau yng Nghymru.

O ran y newidiadau cyffredinol ers 2000, cododd nifer y sefydliadau 5 y cant.

Tabl 6: Sefydliadau yn y sector 2000-2006

	2000	2001	2002	2003	2004	2005	2006
Atyniadau i ymwelwyr	-----	-----	-----	-----	100	-----	100
Bwytai	2,600	2,700	2,700	2,800	2,900	3,100	3,200
Darparwyr gwasanaethau bwyd dan gontract	1,000	900	800	700	700	700	600
Gwasanaethau teithio a thwristiaeth (wedi'u cyfuno)	500	500	500	500	500	500	500
Gwestai	900	900	900	900	900	900	800
Hapchwarae	400	500	500	400	500	500	600
Hosteli ieuenctid	-----	-----	-----	-----	-----	-----	-----
Parciau gwyliau a llety hunanddarpar (wedi'u cyfuno)	300	300	300	300	300	400	400
Tafarnau, bariau a chlybiau nos	3,600	3,600	3,500	3,600	3,700	3,700	3,800
Cyfanswm	**9,400**	**9,400**	**9,300**	**9,400**	**9,600**	**9,700**	**9,900**

Ffynhonnell: Ymchwiliad Busnes Blynyddol (2006)
Nodyn 1. Efallai na fydd y ffigurau'n adio'n gyfansymiau oherwydd talgrynnu (talgrynnwyd y ffigurau i'r 100 agosaf)
Nodyn 2. Mae '-----' yn dynodi data cyfrinachol / ni ddangoswyd y ffigurau gan nad ydynt yn ddibynadwy'n ystadegol

Atodiad A

Trosolwg technegol

Diwydiannau ym maes People1st

Diffinnir maes sectorol People1st ar draws 14 diwydiant gwahanol fel y nodir isod. Gellir diffinio'r rhan fwyaf o ddiwydiannau gan ddefnyddio'r system Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (DDS). Defnyddiwyd y codau DDS canlynol.

Is-sector	Diwydiant	Y DDS swyddogol	Y DDS a ddefnyddiwyd
Lletygarwch	1. Gwestai	55.1	55.1
	2. Bwytai	55.3	55.3
	3. Tafarnau, bariau a chlybiau nos	55.4, 92.34/1	55.4, 92.34
	4. Darparwyr gwasanaethau bwyd dan gontract	55.5	55.5
	5. Gwasanaethau lletygarwch	-	-
	6. Clybiau aelodaeth	55.40/1	Wedi'i gynnwys yn 55.4 uchod
	7. Digwyddiadau	-	-
	8. Hapchwarae	92.71	92.71
	9. Gwasanaethau teithio	63.30/1, 63.30/2	63.3
	10. Gwasanaethau twristiaeth	63.30/3, 63.30/9	63.3
	11. Atyniadau i ymwelwyr	92.33	92.33
	12. Hosteli ieuenctid	55.21	55.21
	13. Parciau gwyliau	55.23/1	55.23
	14. Llety hunanddarpar	55.23/2	55.23

- Gan mai dim ond data ar lefel pedwar digid y DDS mae'r rhan fwyaf o arolygon yn ei roi, defnyddiwyd y codau DDS yn yr ail golofn yn yr adroddiadau hyn i ddiffinio pob diwydiant.
- Nid oes unrhyw godau DDS pedwar digid yn bodoli sy'n caniatáu i ni gynhyrchu data ar gyfer y diwydiant digwyddiadau na'r diwydiant clybiau aelodaeth.
- Hefyd, mae'r data ar gyfer 'parciau gwyliau a llety hunanddarpar' a 'gwasanaethau teithio a gwasanaethau twristiaeth' wedi cael eu cyfuno.
- Mae'r diwydiant gwasanaethau lletygarwch yn cynnwys y bobl sy'n gweithio yng ngalwedigaethau craidd lletygarwch (e.e. cogyddion a staff gweini) ac mewn diwydiannau nad ydynt yn y sector lletygarwch, megis ysgolion, siopau ac awdurdodau lleol.
- Y gwahaniaeth rhwng gwasanaethau lletygarwch a darpariaeth gwasanaethau bwyd dan gontract yw bod y cyntaf yn cael eu rheoli'n fewnol (felly, er enghraifft, gallai cogydd gael ei gyflogi gan ysbyty) ac mae'r ail wedi'i

hallanoli ac mae'r staff yn cael eu cyflogi gan y darparwr gwasanaethau bwyd dan gontract.
- Mae'r ffigurau o Arolwg Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru ar gyfer maes cyfan People1st.

Dyma'r prif ffynonellau data a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn:

- Ymchwiliad Busnes Blynyddol, 2005
- Arolwg o'r Llafurlu (cyfartaledd o bedwar chwarter, 2005 chwarter 2 hyd 2006 chwarter 1)
- Arolwg Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru, 2005
- Data'r Ganolfan Byd Gwaith am swyddi gwag, mis Gorffennaf 2008